

Y Cynllun Pensiwn Newydd i Athrawon



Cychwyn y 'chwyldro'

Ar 1 Hydref 2012 gwnaeth y Llywodraeth yn San Steffan y cyhoeddiad:

The pension revolution starts here - the biggest change in pension for over a hundred years starts today.

Mae Adroddiad(au) y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau Cyhoeddus – Cadeirydd yr Arglwydd Hutton – wedi llywio llawer ar y newidiadau.



Tri newid canolog:

1. Cynyddu oed pensiwn gwladol dros amser.
2. Rhwng 2012-2018 cyflwyno '*auto enrolment*' i sicrhau pensiwn o'r gweithle i ganran uwch o'r boblogaeth.
3. Cyflwyno Pensiwn Gwladol Un Haen (*Single Tier State Pension*) o Ebrill 2016 - £144 yr wythnos.



Cyd-destun deddfwriaethol y newid i bensiwn athrawon

Mae Deddf Pensiynau Sector Gyhoeddus 2013 (*Public Sector Pensions Act*) wedi gorfodi newidiadau sylweddol i bensiynau yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol gan gynnwys pensiynau athrawon.



Rhybudd

Er bod y newidiadau wedi gwneud pensiynau athrawon yn llai ffafriol nag yn y gorffennol, yn arbennig o ran gorfod cyfrannu mwy ac ymddeol yn hwyrach, mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn dal i gymharu'n ffafriol iawn ag unrhyw drefniant arall i baratoi ar gyfer ymddeoliad.

Dylai pob un bwyllo ac ystyried yn ddwys yr oblygiadau cyn tynnu allan o'r Cynllun, hyd yn oed dros dro.



Yr Hen Gynllun(iau)

- Mae'r ddau hen gynllun yn seiliedig ar y cyflog terfynol (*final salary*)

cyflog blwyddyn olaf neu'r 3 blynedd orau yn y ddeg mlynedd diwethaf.

Cynllun cyn 2007 (Oed Pensiwn Arferol yn 60)

- Cyflog terfynol x blynyddoedd o wasanaeth ÷ 80 + talpswm (x3 y pensiwn)
- £40 000 x 35 mlynedd ÷ 80 = £17,500 o bensiwn + £52,500 o dalpswm di-dreth

Cynllun ers 2007 (Oed Pensiwn Arferol yn 65)

- Cyflog terfynol x blynyddoedd o wasanaeth ÷ 60 ond dim talpswm
- £40,000 x 35 mlynedd ÷ 60 = £23,333 o bensiwn



1 Ebrill 2015

**Beth sy'n newid ac ar bwy y bydd
hyn yn effeithio?**



Athrawon Newydd (a rhai'n dychwelyd i ddysgu)

- Bydd pawb sy'n ymuno â'r proffesiwn o'r newydd o'r dyddiad yma yn cyfrannu yn awtomatig i'r Cynllun Newydd
(os nad ydynt yn ethol i dynnu allan o'r Cynllun wrth gwrs).
- Bydd athrawon sy'n dychwelyd i weithio ar ôl cyfnod y tu allan i ddysgu, neu rhai sydd wedi ymddeol a derbyn pensiwn unwaith ond yn dychwelyd i swydd ddysgu arall ar ôl 1 Ebrill 2012, yn talu i'r Cynllun Newydd.



Dan 49 ½ oed

- Bydd pawb sydd dan 49½ neu iau ar 1 Ebrill 2015 yn symud i'r Cynllun Newydd.
- Byddwch yn cadw'r gwasanaeth a'ch buddiannau cysylltiedig sydd gennych yn yr Hen Gynllun fel ag y maent nes ymddeol.
- Golyga hyn y bydd gan fwyafrif athrawon 'ddau' gynllun pensiwn gyda thelerau ac amodau pur wahanol.



53 a hŷn

Bydd pawb sy'n talu i'r Cynllun Pensiwn presennol ers cyn 2007 ac yn 53 oed yn aros yn yr 'hen' Gynllun nes eu bod yn ymddeol a bydd yr oedran ymddeol arferol yn aros yn 60 oed.



Rhwng 49 ½ a 53 oed

Bydd athrawon sy'n talu i'r Cynllun Pensiwn presennol ers cyn 2007 a rhwng 49½ a 53 oed yn aros yn yr 'hen' Gynllun am gyfnod dan Gynllun Gwarchodaeth Raddol (*Tapered Protection*) ond yn gorfod ymuno â'r Cynllun Newydd o'r dyddiad diweddarach e.e.

Bydd rhywun sy'n 51 a 2 fis ar 1 Ebrill yn ymuno â'r Cynllun ar 1 Awst 2018.

Bydd rhywun sy'n 52 a 3 fis ar 1 Ebrill yn ymuno â'r Cynllun ar 1 Hydref 2020.



Beth sy'n newid

1. Oed ymddeol

O dan y Cynllun Newydd bydd Oed Ymddeol ar gyfer pensiwn athrawon yn cyfateb yn union ag Oed Pensiwn Gwladol.

Gallwch ganfod eich oed pensiwn gwladol ar lein drwy fynd i www.gov.uk/calculate-state-pension

- Erbyn 2015 bydd oed ymddeol merched yn 65 fel un y dynion
- 1 Hydref 2020 bydd yn codi i 66 i bawb
- Rhwng 2026 a 2028 bydd yn codi i 67 ac erbyn 2046 yn 68

Mae hwn yn fater mae'r Undebau wedi, ac yn parhau i, ddadlau yn chwyrn yn ei erbyn.



2. Lefel Cyfraniadau Athrawon

- Dros y blynyddoedd diwethaf mae lefel cyfraniadau pensiwn athrawon wedi codi o 6.0% i gyfartaledd o 9.6%.
- Llwyddwyd i berswadio'r Llywodraeth y dylai lefel y cyfraniadau gael ei seilio ar y gwir dâl ac nid y tâl llawn cyfatebol.
- Dylai hyn brofi'n fanteisiol i staff rhan-amser a staff llanw.



Dyma lefel y cyfraniadau athrawon ar hyn o bryd ac o 1 Ebrill 2015

Cyflog Blwyddyn (neu'r tâl llawn cyfatebol)		Ebrill 2014	Cyflog Blwyddyn (gwir dâl)		Ebrill 2015
Rhwng	a		Rhwng	a	
£0	£14,999	6.4%	£0	£25,999	7.4%
15,000	25,999	7.2%			
26,000	31,999	8.3%	26,000	34,999	8.6%
32,000	39,999	9.5%	35,000	41,499	9.6%
40,000	44,999	9.9%	41,500	54,999	10.2%
45,000	74,999	11.0%	55,000	74,999	11.3%
75,000	99,999	11.6%	75,000 +		11.7%
100,000 +		12.4%			

Cyfraniadau y Cyflogwr

- Bydd cyfraniad y cyflogwr yn codi o 14.1.% i 16.48% o Fedi 2015.
- Mae Datganiad wedi ei wneud gan y Trysorlys mai ym mis Medi y gweithredir hyn rhag amharu ar staffio ysgol ar ganol blwyddyn ysgol. Bydd 7 mis o gynnydd yn dal yn daladwy o gyllideb nesaf ysgolion - 2015/2016.
- Yn y tymor hir disgwylir i gyfraniad y cyflogwr leihau.



3. Dull newydd o Gyfrifo'r Pensiwn

- Mae'r modd y mae pensiwn athrawon yn cael ei gyfrifo yn newid yn sylweddol o 1 Ebrill 2015. Dan y cynllun newydd bydd pensiwn yn seiliedig ar Gyfartaledd Cyflog Dros Yrfa - CARE (*Career Average Revalued Earnings*) ac nid ar y Cyflog Terfynol (*final salary*) dan yr hen gynllun.
- Ar derfyn pob blwyddyn o wasanaeth bydd gennych pensiwn gwerth $1/57$ o'ch enillion am y flwyddyn honno, e.e. Mae cyflog athro/athrawes newydd gymhwyso yn £22,023, felly ar derfyn blwyddyn cyntaf o wasanaeth bydd hawl i £386 ($£22,023 \div 57$) o pensiwn blynyddol gan yr ANG.



Rhybudd eto!

- Bydd yn hanfodol bod athrawon yn gwirio cywirdeb eu datganiad pensiwn yn flynyddol gan na fydd modd, o bosibl, cywiro gwallau yn nes ymlaen yn eu gyrfa.
- Mae sôn na fydd adroddiad papur blynyddol yn cael ei ddosbarthu ar ôl 2016. Bydd yn rhaid gwirio eich pensiwn ar-lein o hynny ymlaen.



Chwyddiant

- Mae'r Cynllun Newydd yn cyfrifo chwyddiant ar sail CPI (*Consumer Price Index*) + 1.6% i aelodau cyfredol
- Pe bai chwyddiant yn 2.0%, dyma sut y byddai pensiwn yr ANG yn tyfu

Blwyddyn 1 £386

Blwyddyn 2 £400

Blwyddyn 3 £414

Blwyddyn 30 £1115

Cofier mai rhagamcan ar gyfer modelu yw hyn, does neb yn gwybod beth yn union fydd lefel chwyddiant dros y 30 mlynedd



Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn

	Cyflog	Gwerth BI1	Gwerth BI2	Gwerth BI3	Gwerth BI4	Gwerth BI5
Blwyddyn 1	£22,023	£386	£400	£414	£429	£445
Blwyddyn 2	£23,764		£417	£432	£447	£463
Blwyddyn 3	£25,657			£450	£466	£483
Blwyddyn 4	£29,829				£523	£542
Blwyddyn 5	£32,187					£564
Cyfanswm		£386	£817	£1296	£1865	£2497
Seiliedig ar Mynegrif Prisiau Defnyddwyr (CPI) o 2%						

Cynyddu eich pensiwn drwy gyfrannu mwy

Dan y Cynllun CARE bydd modd cynyddu eich pensiwn drwy gyfrannu canran uwch , sef 1/45fed, 1/50fed neu 1/55fed o'ch cyflog blynyddol.

Canran	1/57 (safonol)	1/55	1/50	1/45
£22 023	£386	£400	£440	£489

Bydd cynnyddd chwyddiant (*indexation*) yn parhau i fod yn berthnasol. Rhaid dewis cynyddu cyfraniadau mewn unrhyw flwyddyn ymlaen llaw, h.y. cyn 1 Ebrill y flwyddyn honno.

Goblygiadau a Chymlethdodau cael Dau Bensiwn.

- Mae mwyafrif yr athrawon presennol yn mynd i orfod ymdopi gyda chael dau pensiwn i bob pwrpas, sef y pensiwn sydd wedi ei gronni hyd 1 Ebrill 2015 a'r pensiwn CARE wedi hynny.

Ni ellir enghreifftio pob cyfuniad posibl, ond mae'r dair enghraifft a ganlyn yn amlygu oblygiadau cael dau pensiwn.

Bydd pensiwn pawb yn wahanol a'r cyfan y gallwn gynnig yw amcangyfrif o fras werth y pensiwn tybiedig adeg ymddeol.



Jo

- Jo – 51 oed. Dechreuodd ddysgu yn 26 oed
 - Cyflog presennol ydy £37,500
 - Bu'n gweithio mewn adran Llywodraeth Leol am 2 flynedd cynt – trosglwyddwyd y gwasanaeth
 - Am ymddeol yn 60. Oed Pensiwn Jo yw 67
 - Mae'n ymuno â'r Cynllun Newydd ar 1/6/2019
 - Pensiwn 1 = £14,880 (Talpswm = £44,641)
 - Pensiwn 2 = £2,149
 - Cyfanswm y pensiwn = £17,030* y flwyddyn
 - (£23,158 o ymddeol yn 67)
- (*DS Gwerth tybiedig yn 2024 nid heddiw)



Ceri

- Ceri 41 oed. Dechreuodd ddysgu yn 23
- Pennaeth Adran Iau efo CAD 2b = £41,770
- Oed Pensiwn fydd 67 ond am ymddeol yn 63
- Mae'n ymuno â'r Cynllun Newydd ar 1/4/15

Pensiwn 1 = £9,701 (+ Talpswm o £29,104)

Pensiwn 2 = £19,776

- Cyfanswm pensiwn = £29,477* y flwyddyn
(Byddai'n £40,842 o weithio tan 67)

(*DS Gwerth tybiedig yn 2037 nid heddiw)



Eryl

- Eryl yn 31 oed. Wedi dechrau dysgu yn 2007
- Cyflog Pennaeth Cynorthwyol £38,215
- Mae'n ymuno â'r Cynllun Newydd ar 1/4/15
- Ymddeol yn 64 oed. Oed Pensiwn yn 68 oed

Pensiwn 1 = £4,828 (+ Talpswm o £14,484)

Pensiwn 2 = £40,649

- Cyfanswm y pensiwn = £45,478* y flwyddyn

(£56,917 os yn ymddeol yn 68)

(£27,755 os yn ymddeol yn 60 oed)

(*DS Gwerth tybiedig yn 2048 nid heddiw)



Talpswm Dewisol

- Mae talpswm di-dreth yn rhan o becyn pensiwn cyn 2007, sef x 3 y pensiwn.
- Gall athro/athrawes sy'n ymddeol dan gynllun ôl 2007 a'r cynllun newydd gymudo rhan o'u pensiwn (hyd at chwarter) yn dalpswm ar y raddfa £12 am bob £1 o bensiwn sy'n cael ei ildio. Mae hyn yn parhau i fod yn bosibl dan y Cynllun Newydd.



Ymddeol Graddol

- Bydd cyfle i ymddeol graddol yn parhau i aelodau dros 55 oed.
- O dan y Cynllun hwn mae athro/athrawes yn cwtogi ei swydd o leiafswm o leiaf 20% (ar sail cyflog y 6 mis diwethaf) ac yn gallu cael mynediad i hyd at 75% o'r buddiannau pensiwn - y pensiwn a'r talpswm.
- Rhaid gweithio yn y swydd newydd am flwyddyn
- Os yw'r unigolyn o dan oed ymddeol bydd y symiau hyn yn cael eu lleihau'n actiwaraid.
- Rhaid i'r ysgol gydsynio i'r aelod gwtogi oriau gweithio. Mewn rhai amgylchiadau mae hyn yn profi'n fanteisiol i bawb e.e. ar adeg o doriadau, ond nid yw'n Gynllun sy'n cynnig ei hun i bawb, e.e. i benaethiaid.
- Gellir cynyddu'r ganran o ymddeoliad dair gwaith dan y Cynllun Newydd (dau cyn 60 oed) a gellir tynnu canran uwch o un 'pot' pensiwn na'r llall.



Lleihau actiwaraidd

- Os yw athro/athrawes yn ymddeol rhwng 55 ac oed ymddeol y cynllun pensiwn (60 neu 65 ar hyn o bryd) mae'r pensiwn (a'r talpswm) yn cael ei lleihau'n actiwaraidd, a hynny am oes. Yn fras, mae hyn yn ostyngiad o 5% am bob blwyddyn rhwng 55 a 60 oed.
- Un cyfaddawd bychan gafwyd gan y Llywodraeth oedd lleihau'r ganran actiwaraidd i 3% yn y cyfnod 65-68oed yn y Cynllun Newydd.



'Prynu Allan' (*Buy-Out*)

- Os yw eich oed ymddeol dros 65 gallwch 'brynu allan' o'r lleihad actiwaraidd rhwng 65 ac oed ymddeol, h.y. talu mwy i beidio cael y lleihâd yma.
- Rydym yn aros am union gost a manylion llawn gweithredu'r opsiwn yma fydd ar gael i bensiynau CARE yn unig.



Ymddeol ar sail toriechyd

- Eto mae modd i athro/athrawes ymddeol ar sail toriechyd. Mae dwy raddfa i'r taliadau hyn, sef:
 - Graddfa is - i'r rhai sy'n gallu profi nad ydynt yn gallu parhau i ddysgu oherwydd toriechyd
 - Graddfa uwch - i'r rhai sy'n gallu profi na allent wneud unrhyw fath o swydd
- Dan y Cynllun Newydd gellir gwneud cais am bensiwn salwch hyd at ddwy flynedd ar ôl gadael y swydd, ond rhaid i'r cyflwr fod yn bodoli adeg rhoi gorau i weithio.



Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol

- O dan y rheoliadau cyfredol mae aelodau'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn cael gostyngiad yn eu taliadau Yswiriant Cenedlaethol (gostyngiad o 1.4%) oherwydd bod ganddynt bensiwn alwedigaethol. Wrth gyflwyno'r Pensiwn Gwladol Un Haen (Deddf Pensiynau 2014) o Ebrill 2016 mae'r consesiwn hwn yn cael ei golli. Golyga hyn y bydd cynnydd yn lefel cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol fydd yn daladwy o 1 Ebrill 2016.
- Yn ogystal ag effeithio ar gyfraniadau yr athro/athrawes bydd gofyn i'r cyflogwr dalu 3.4% yn fwy hefyd. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar gyllidebau ysgolion yn y flwyddyn gyllidol 2016/17.



Trosglwyddo o gynllun i gynllun

- Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn rhan o 'Glwb' o bensiynau y mae modd trosglwyddo gwasanaeth o un i'r llall e.e. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Dylai unrhyw athro/athrawes sy'n symud i weithio'n barhaol i Awdurdod Lleol/Consortia fod yn ymwybodol o oblygiadau hynny i'w pensiwn
- Yn yr un modd dylai rhai sy'n dod i mewn i ddysgu wedi cyfrannu i gynllun pensiwn proffesiwn arall ganfod a oes modd trosglwyddo eu gwasanaeth i'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Fel arfer, mae'n rhaid gwneud cais am drosglwyddiad yn y 12 mis cyntaf yn y swydd newydd.



Prynu Pensiwn Ychwanegol

- *AVC – additional voluntary contribution.* Mae cyfarfod i'w gynnal efo Prudential yn fuan i drafod beth fydd ar gael dan y cynllun hwn.
- Os oes gennych AVC, mae'n werth oedi rhag codi unrhyw AVC tan fydd y rheoliadau wedi eu newid.
- Mae modd prynu unedau gwerth £250 o bensiwn ychwanegol y flwyddyn. Mae'r gost yn dibynnu ar oedran a rhyw. Gellir gwneud un taliad neu gynyddu taliadau dros amser.



Manylion Cyswilt

01970 639 950 / ucac@athrawon.com



Dilwyn Roberts-Young
Is-Ysgrifennydd Cyffredinol / Swyddog Maes y De-ddwyrain
dilwyn@athrawon.com



Rolant N. Wynne
Swyddog Maes y Gogledd
rolant@athrawon.com



Mererid Lewis Davies
Swyddog Maes y De-ddwyrain
mererid@athrawon.com



Ywain Myfyr
Swyddog Maes Cynorthwyol y Gogledd
ywain@athrawon.com

